4.102

# CAN YSGRYTHYROL,

O

# ATTEBIAD I'R TAENELLWYR BABANOD,

*Mewn Traethiadau a ysgrifenasant, mewn dull o enllib a geiriau celyd am y bobl sy'n myned yn ol gair Duw, a'u cydwybodau, dan yr enw Bedyddwyr, trwy gymeryd Iesu Grist yn siampl, a'i air yn rheol yn mhob ymarferiad crefyddol, ac nid hen draddodiadau cyfeiliornus Pabyddiaeth.*

Ti a bwyswyd yn y clorianau, ac a'th gaed yn bryn.—Dan. 5. 27.

Edrychwch na bo neb yn eich hanrheithio trwy philosophi a gwag dwyll, yn ol traddodiad dynion, yn ol egwyddorion y byd, ac nid yn ol Crist.—Col. 2. 18.

Edr. Gal. 1. 14, a 4. 9; Mat. 15. 3: 1 Cor. 3. 10—15; Phil. 1. 15, a 4. 8; Jer. 29. 8; Heb. 13. 9.

Ac yr wyf yn attolwg i chwi, frodyr, graffu ar y rhai sydd yn peri anghydfod a rhwystrau, yn erbyn yr athrawiaeth a ddysgasoch chwi; a chiliwch oddi wrthynt.—Rhuf. 16. 17.

Edr. 2 Ioan 1. 9, 10, 11.

Pe clywn i fod Cenfigen, aflawen, wael ei drych,
Ond unwaith wedi marw, cydunwn ganu ei chlych:
Mi ddeuwn idd ei hangladd, heb ddeigryn ar fy ngrudd,
Wel'd dodi'r hen fileines yn isel yn y pridd.

---

DARLLENAIS waith athrawon, eu golwg nid oedd glir,
Am *Babaidd Fedydd Baban*, ni ddywedent ddim mo'r gwir;
Maent wedi codi arfau, a cheisio dod yn ben,
Ni rhaid i ni ddim ofni un gwr â chleddyf pren.
1 Bren. 19. 14; Joel 3. 3; Jer. 9. 5; 3 Ioan 1. 10; 2 Sam. 23. 10.

With fyn'd i adeiladu, mae'n gofyn bwrw'r draul.
Ac edrych yn ofalus pa fodd mae gyda'r sail:
Fe brofir pob rhyw orchwyl, meddyliwn bob yr un,
Fe losgir pob gwaith dynol, fel gwair a sofl grin.
Luc 14. 28, 29; 1 Cor. 3. 10, 11, 12.

Attolwg, y taenellwyr, a ddewch chwi i'r glorian glir,
Mewn tawel ysbryd syml, i mewn i'r Bibl pur;
Lle cawn ni reol union, heb wyro ar un llaw,
A ddalio'n bwysau cywir ddiwrnod mawr a ddaw.
Diar. 30. 5; Esau 8. 20; Diar. 8. 8; 1 Cor. 3. 15.

Pa'm y'ch chwi, fobl, yn gwyro oddiwrth efengyl bur?
On'd lladron ac yspeilwyr sy'n dringo dros y mur,
A gado'r llwybrau goleu, a'i gamrau union tlws,
A dringo trwy'r ffenestri, a phasio heibio'r drws?
Jer. 23. 36; Ioan 10. 8; 2 Cor. 12. 18; Ioan 10. 9.

Attebwch, wyr, yn syml, o'r 'fengyl bur ddinag,
Nid twyllo eich darllenydd a rhyw hanesion gwâg;
Ond pur wirionedd cadarn, heb wyro ar un llaw,
A ddalio yn y glorian yn bwysau'r dydd a ddaw.
Diar. 15. 1; 12. 17; Ps. 100. 5; Job 31. 6; Ps 62. 6.

Mae'n gofyn i drafaelwr, rhag ofn garw hin,
I 'mofyu cadarn sylfaen, yn lle ffyn baglau crin;
Gwell yw sylfaenu'n gynnil wrth reol Bibl Duw,
Wrth ado'r rheol hòno, ca'dd lawer esgyrn briw.
Esau 27. 8; 36. 6; Gal. 6. 16; Ps, 141. 7.

Os ni yw'r Ail-fedyddwyr, pwy oedd y cynta' erio'd?
Da gennyf glywed hyny gan ryw un dan y rhôd;
Rhaid myn'd at y taenellwr, a gofyn iddo fe,
Os methiff roddi ateb, fe ddarfu am y ple.
Mat. 21. 25, 26, 27; Luc 7. 30; Act 8. 12.

Gwr chwannog iawn i gweril, yn ieuangc iawn ei o'd,
A'i lefel at fedyddwyr, ac atynt hwy mae'i nôd;
Mae ei ddannedd ef yn llymion, a'i dafod ef yn hir,
Pe bai e'n hwy o lawer, mae etto heb ddweud y gwir.
Col. 3. 13; Galar. 3 12; Iago 1. 26; Jer. 9. 5.

Gwylied holl daenellwyr, rhag cadw'r gwir ynghudd,
A theithio ar draeth pwdr, heb gael eu traed yn rhydd;
Trueni fod gwyr cyfrwys yn awr mor frwd eu zel,
Dros hen draddodiad dynol, a chadw'r gwir yn gel.
2 Cor. 4. 2, 3; Mat. 7. 26; Rhuf. 10. 2; Col. 2. 8.

Galarus iawn i'w gweled yn un lle, ŵr neu fâb,
Yn sefyll mor ddig'wilydd dros fedydd tlawd y pab;
Aed hwn yn ol i Rufain, y lle daeth allan gynt,
Nid yw ond plyfyn ysgafn, aiff gyda'r awel wynt.
2 Tim. 4. 3, 4; Dat. 18. 21; Job 21. 18; Ps. 78. 39.

Ystyriwch hyn o brysur, chwi oll daenellwyr plant,
Pe baech chwi'n gwneuthur llyfrau, rifedi lawer cant;
Ni fyddai rhai'n ond sothach, ac afiach o bob rhyw,
Heb fawr o'r gwir yn gyson wrth reol Bibl Duw.
Deut. 11. 1; Preg. 12. 12; Tit. 2. 1, 2; 1 Tim. 4. 16.

Chwi ewch at yr enwaediad, Cyfammod Abraham,
I bledio bedydd baban, nid yw ond rheswm cam;
Gwneuthur ffol yn ffolach, a'r dall yn ddallach yw,
I geisio haeru un peth na cheir e'n Mibl Duw.
Gal. 5. 2; Act. 15. 1; Diar. 16. 22; Phil. 4. 5; Mat. 15. 6.

Nid yw'ch rhesymau tywyll i gyd ond twyll â 'sgil,
Fe ddichon un eich atteb, pe baech chwi lawer mil;
Ni cheisiwn ond y Bibl, mae hwnw'n ddigon byth,
Ni cheir mo fedydd baban, onid ydyw hyn yn chwith!
2 Cor. 4. 2; Ps. 3. 6; 2 Cor. 12. 9; 2 Tim. 2. 9.

Chwi haerwch yn ddig'wilydd, a llawer iawn o 'stwr,
Am Lydia, fenyw dduwiol, fod iddi blant a gŵr;
Rhyfeddol yw'r dichellion, i dwyllo dynolryw,
I ddywedyd neu 'sgrifenu y peth na ddywedodd Duw.
1 Tim. 1. 7; Act. 16. 14; Diar. 7. 10; Ps. 35. 20; 1 Ioan 4. 1.

xeos 28350

Dwys gadarn, rai dysgedig, ni ddywedant ddim mo'r gwir,
P'le mae'ch agoriad auraidd i ddadcloi cloion dur?
Os gwr a phlant oedd iddi attebwch i mi'n *blain*,
I'r goleu a'r dirgelwch, mynegwch enwau rhai'n. [3. 6.
Lef. 19. 32; Can. 4. 12; Diar. 15, 1; Esau 41. 28; Col.

Yr y'ch chwi'r gau athrawon, yn achwyn arnom ni,
O eisiau ein bod ni'n llawen, wrth lais eich telyn chwi;
Fe ddichon gwag resymau, foddloni ambell un,
A gwneyd y ffol yn llawen os yfir peth o'i win. [31, 32.
Rhuf. 2. 20; Preg. 3. 12; Job 11. 12; Diar, 1. 31; 23.

Mae llawer rheswm cibddall i dwyllo'r anghall ddyn,
Rhyw 'chydig o wirionedd, anwiredd wrth ei glyn;
Cymmysgu rhai'n a'u gilydd i dwyllo dynolryw,
Mae hon yn ddichell enbyd, a chroes i feddwl Duw.
Rhuf 1. 21, 25; Ps. 105. 25; Diar. 14. 17.

Pe baed yn gwneuthur llyfrau i lanw hyn o fyd,
I bledio bedydd baban, ni fyddai ond twyll i gyd:
Y tŷ sydd ar y tywod i gyd a gwymp i lawr,
Y gwir a ddal yn gadarn yn nydd y storom fawr,
Preg. 12. 12; Mat. 7. 27; I Cor. 3. 10.

Rhyw bentwr mawr sydd genych, o hen gasgliadau crin,
A losgir yn y diwedd fel tân yn difa llin;
Pysgotta llynoedd lleidiog, ac nid y gair ei hun,
Gwell genym dammaid iachus, na'u pysgod drewllyd blin.
2 Tim. 4. 3; Heb 16. 18; Jer. 16. 16; Diar. 16. 1; 15. 17.

Chwi wnewch aelodau eglwys o blant bythefnos oed,
Na cherddodd gam o'r ddaear, na ddywedodd air erioed;
Nid yw y fath ddefnyddiau ond digon gwan a main,
Mae'n dda fod cryfach muriau i Sion nag yw rhai'n.
1 Sam. 1. 22; Rhuf. 9. 11; Ps. 119. 16; Galar. 2. 18.

~~Os~~ gall un Sant genhedlu Sant arall yn y bru,
Ystyried pob darllenydd, nad yw ond celwydd du;
Pa fodd na all'sai Noa, rhowch atteb im' paham
Na bu'sai fe'n cenhedlu duwiolach mab na Cham. [24.
Gen, 25. 22; Marc 13. 14; Gen. 9. 24; Lef. 10 1; Gal. 4.

Rhyfeddu'r wyf, a synu o'm blaen ac ar fy ol,
Fod un dyn â phump synwyr yn siarad peth mor ffol;
Chwi holl ddarllenwyr Cymru, ystyriwch bob yr un,
Pwy gristion allai feddwl ei fod yn berchen un.
Ps. 143. 4; Diar. 27. 22; Deut. 32. 1; Diar. 11. 12.

Rhyfedd yw'r ymdd'rysu, mewn tywyllwch lawer tro,
Fel dyn f'ai a'i ysbryd, mewn cwlwm dan y clo,
A'i wag rhesymau gwanaidd, disylwedd a diles,
Yn teithio mewn tywyllwch, heb oleu'r haul na'i gwres. [3.
2 Pedr 1. 9; Deut. 2. 30; Job 32. 11; Barn. 4. 9; Job 25.

Gofynaf i'r taenellwyr, sydd yma is y rhod,
A oes rhyw Fiblau newydd, yn ddirgel yn eich cod;

Ac onid oes rhai newydd, myfi a a ddyweda'n hy
Na cheir mo fedydd baban o fewn i'n Biblau ni?
Mat. 21. 25; Hag. 1. 6; Eph. 6. 19; Act. 14. 3,

Beth dal rhyw hên gasgliadau, i lanw llawer sach,
Heb ganddo yn y diwedd ond crygyn brwnt o grach
I ranu rhwng ei frodyr, yn agos ac yn mhell,
Dymunwn fod bugeiliaid yn cadw ymboith gwell.
Col. 2. 18, 21, 22; 2 Cron. 3. 6; Diar. 10. 21,

Sylwch chwi, ddarllenwyr, am seren wermwnt fawr,
A ddywed Ioan am dani, a syrthiodd yma i'r llawr;
Hi chwerwodd yr holl ddyfroedd, ne's marw llawer un,
Nid oes gan rhai athrawon o'r efengyl ond ei llun.
Dat. 8. 10, 11; Jer. 23. 15; 9. 15.

O rhyfedd y taenellwr, na bu'sai'n gallach gŵr,
Na myn'd i bigo cweril, a chadw'r fath ystwr:
Gwell fu'sai fod cenfigen, yn isel dan ei dro'd,
Na'i chwydu 'ngwyneb brodyr, mwy ganwaith fu'sai ei glod.
Diar. 14. 8; 23. 11; 26. 21; Esau 28. 8; Jos. 6. 27.

Beth dal y gwin melusa', a'i yfed e' pan ceir,
A gwenwyn yn ei waelod, a'i gael o gwpan aur;
Ystyried pob darllenydd, ond llyfr i'r Cymry glan,
Fe losgir bedydd baban i gyd yn ulw man.
Diar. 9. 2; Dat. 17. 4; Act. 19. 19; 2 Sam. 3. 8.

Maent hwy wedi digio er's dyddiau'n chwerw iawn,
Cenfigen sy'n eu mynwes, a chweril sydd yn llawn;
Achwynant ar fedyddwyr yn uchel iawn eu gwynt
O eisiau ein bod ni 'n bwyta o'u torthau llwydon hwynt.
2 Sam. 3. 8; Iago 3. 16; 1 Tim. 5. 19; Jos. 9. 4, 5.

Hauasant had ymryson yn uchel ar eu gwrych,
Gan feddwl yn eu calon i fyn'd a'r grwn a'r rhych;
Fe all y gwir gyfarfod rhyw un a swmbwl hir,
Mae llawer ych yn blino, cyn myn'd i ben ei dir.
Hab. 1. 3; Hos. 7. 2; Gen. 14. 17; Gal. 6. 9.

Fe gaiff y frwydr ddarfod, os llonydd teg a gawn,
Ni 'nghanwn air yn mhellach na boreu na phrydnawn;
Os gwnair ryw rith o atteb, gan ryw un o'r groes blaid,
Ceir rhagor y tro nesaf, os gwelir anghenrhaid. [16.
Ps. 140. 7; Diar 3. 31; Gen. 45. 3; Jud. 22; 1 Cor. 9.

Os rhaid yw canu rhagor, 'does help ond myn'd yn m'lan
Trwy ganol hyn o ryfel, er poethed ydyw'r tan;
Pe deuai yn fy erbyn ryw filoedd ddwy neu dair,
Ni cheisiaf fi un araf, ond cleddyf gloyw'r gair.
Rhuf. 12. 10; Diar. 20. 20; Ps. 2. 6; Eph. 6. 17.

D. W.

---

*M. Price, Argraffydd, Merthyr.*